STATUTORY INSTRUMENTS

1980 No. 1930

HOUSING, ENGLAND AND WALES

The Housing (Right to Buy) (Prescribed Forms) (No. 2) (Welsh Forms) Regulations 1980

Made - - - 26*th November* 1980

Coming into Operation 30*th January* 1981

The Secretary of State for Wales in exercise of the powers conferred on him by sections 22(1) and 151(1) of the Housing Act 1980(**a**), as extended by section 2(2) and (3) of the Welsh Language Act 1967(**b**) and of all other powers enabling him in that behalf, hereby makes the following regulations:—

Citation, commencement and interpretation

1.—(1) These regulations may be cited as the Housing (Right to Buy) (Prescribed Forms) (No. 2) (Welsh Forms) Regulations 1980 and shall come into operation on 30th January 1981.

(2) In these regulations, "the principal regulations" means the Housing (Right to Buy) (Prescribed Forms) (No. 2) Regulations 1980(**c**).

Prescribed Form

2. The form set out in the Schedule to these regulations is hereby prescribed as the version in Welsh which may be used instead of Form No. 4 in the Schedule to the principal regulations for the purposes of section 12(1) of the Housing Act 1980 by a secure tenant claiming to exercise his right to a mortgage in relation to a house or flat situated in Wales.

3. A form substantially to the like effect to the form set out in the Schedule to these regulations may be used.

SCHEDULE

FFURFLEN RHIF 4

DEDDF TAI 1980: ADRAN 12(1)

HYSBYSIAD HAWL I GAEL MORGAIS

Rhennir y ffurflen hon i ddwy Adran. Dylai pob un sy'n rhannu'r Hawl i Brynu lenwi a llofnodi Adran 1.

Fodd bynnag, dylai copi **ar wahân** *o Adran* 2 *(Manylion am Incwm) gael ei lenwi gan* **bob un** *o'r personau a fydd yn llofnodi Adran* 1 *os bydd ganddynt incwm eu hunain y byddant am ei gymryd i ystyriaeth wrth bennu faint o forgais y mae ganddynt hawl i'w gael.*

Os na fydd digon o le mewn unrhyw ran o'r Hysbysiad, defnyddiwch ddalen ar wahân a'i chysylltu wrth yr Hysbysiad.

PWYSIG: Ceir cyfyngiad amser ar gyfer cyflwyno'r Hysbysiad hwn. Yn y rhan fwyaf o achosion mae hyn yn golygu y gallwch golli eich hawl i gael morgais os na chyflwynwch yr Hysbysiad hwn o fewn 3 mis o'i dderbyn.

(**a**) 1980 c. 51. (**b**) 1967 c. 66. (**c**) S.I. 1980/1465.

ADRAN 1

Dylai pob un sy'n rhannu'r Hawl i Brynu lenwi a llofnodi Adran 1.

Cyfeiriad y tŷ neu'r fflat a brynir .....

.....

.....

Ai cymdeithas tai yw perchennog y tŷ neu'r fflat?.....
(*Ysgrifennwch IE neu NAGE*)

Os 'IE' yw'r ateb rhowch yma enw a chyfeiriad y gymdeithas tai; fel arall gadewch le gwag.
(*Enw*) .....

(*Cyfeiriad*) .....

Os tenant cymdeithas tai ydych chwi, rhowch yma "Y Gorfforaeth Tai"

I.....(*y sawl sy'n rhoi'r benthyciad*)

Os tenant unrhyw gorff arall ydych chwi rhowch yma enw eich landlord

BYDDED HYSBYS I CHWI fod y personau y mae eu llofnodau ar ddiwedd yr adran hon yn gwneud cais drwy hyn am gael ymarfer eu hawl i gael morgais.

Ydych chwi'n bwriadu gwneud cais am forgais dewisol?.....
(*Ysgrifennwch YDWYF neu NAC YDWYF*)

Ydych chwi'n bwriadu gwneud cais am gymorth o dan y Cynllun Cymorth Prynu Cartrefi?.....
(*Ysgrifennwch YDWYF neu NAC YDWYF*)

PRIF INCWM: *Llanwer yn unig lle mae rhagor nag un person yn rhannu'r hawl i brynu, a mwy nag un o'r personau hynny ag incwm eu hunain:—*

Enw'r person y gofynnir i'r sawl sy'n rhoi'r benthyciad ystyried ei incwm fel y prif incwm at ddibenion pennu faint o forgais y mae ganddo hawl arno yw:—

..... (*Rhowch yr enw llawn*)

LLOFNODION: *I'w lenwi a'i lofnodi gan bob un o'r personau sy'n rhannu'r hawl i brynu.*

TABL A

Llofnod(ion)	Enw(au) llawn	Cyfeiriad(au)	Dyddiad

ADRAN 2: MANYLION AM YR INCWM

Dylai copi ar wahân o Adran 2 gael ei lenwi gan bob un o'r personau a fydd yn llofnodi Adran 1 os bydd ganddynt incwm eu hunain y byddant am iddo gael ei ystyried pan bennir y morgais y mae ganddynt hawl arno.

Wrth roi'r manylion am eich incwm a'ch ymrwymiadau fe ddylech gynnwys yr union ffigurau os ydynt ar gael. Mae'n bosibl, fodd bynnag, y bydd y sawl a rydd y benthyciad yn barod i dderbyn amcangyfrifon.

Cyfeiriad y tŷ neu'r fflat a brynir .....

.....

.....

Enw ..... (*Rhowch eich enw llawn*)

RHAN A: INCWM O GYFLOGAETH

Llanwch y Rhan hon os ydych yn derbyn incwm o unrhyw gyflogaeth (yn cynnwys cyflogaeth rhan amser) nad yw'n achlysurol na thros dro.

Enw, a Chyfeiriad y cyflogwr .....

.....

.....

.....

Y safle a ddelir .....

(i) Rhowch y manylion am eich pai presennol (cyn tynnu allan ohono dreth incwm neu unrhyw symiau eraill) yn ôl hyn a hyn y flwyddyn:—

Enillion Sylfaenol	£	y flwyddyn
Goramser	£	y flwyddyn
Bonws	£	y flwyddyn
Comisiwn	£	y flwyddyn
Cil-dwrn neu lwfansau (ac eithrio lwfansau treuliau)	£	y flwyddyn
Cyfanswm	£	y flwyddyn

(ii) Os credwch nad yw'r cyfanswm uchod yn cynrychioli'n deg eich pai blynyddol, rhowch y rheswm pam na wnaiff hynny ynghyd â'r swm priodol:—

.....

.....

RHAN B: INCWM O FUSNES

Llanwch y rhan hon os ydych yn derbyn incwm o unrhyw fusnes (yn cynnwys unrhyw fasnach, proffesiwn neu alwedigaeth a wneir gan berson sy'n cyflogi ei hun).

Enw a Chyfeiriad y Busnes .....

.....

.....

Math ar Fusnes .....

Enw a Chyfeiriad cyfrifydd, os oes gennych un.....

.....

.....

Caiff eich incwm blynyddol o'r busnes ei asesu ar sail y wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael ynglŷn ag elw net blynyddol y busnes (neu eich cyfran chwi o'r elw net) cyn tynnu unrhyw dreth allan ohono. Os cewch wybodaeth ddiweddarach ar ôl i chwi gyflwyno'r Hysbysiad hwn, gallwch ei chyflwyno i'r sawl a fydd yn rhoi'r benthyciad i chwi.

Rhowch yma swm eich elw blynyddol net presennol, neu eich cyfran o'r elw blynyddol net cyn tynnu treth ohono.	£

RHAN C: INCWM ARALL

Llanwch y rhan hon os bydd gennych unrhyw incwm arall.

Rhowch y manylion canlynol am bob un o'ch ffynonellau incwm:—

Ffynhonnell yr incwm (er enghraifft pensiwn ymddeol, buddsoddiadau)	Incwm presennol (cyn tynnu allan ohono unrhyw dreth na symiau eraill) yn ôl hyn a hyn y flwyddyn, £ y flwyddyn

RHAN D: YMRWYMIADAU

Llanwch y Rhan hon os ydych yn agored i wneud unrhyw un o'r taliadau canlynol os ydynt yn debygol o barhau am fwy na 18 mis.

	Swm blynyddol sy'n daladwy ar hyn o bryd
(a) Taliadau cynnal plentyn o dan 16 oed sy'n ddibynnol arnoch	£ y flwyddyn
(b) Taliadau cynnal eich gŵr neu'ch gwraig neu eich gŵr neu'ch gwraig flaenorol	£ y flwyddyn
(c) Taliadau o dan gytundeb benthyca	£ y flwyddyn
(d) Taliadau o dan gynllun hur-bwrcasu	£ y flwyddyn
(e) Taliadau o dan unrhyw gytundebau credyd eraill	£ y flwyddyn
(f) Taliadau o dan orchymyn llys	£ y flwyddyn

RHAN E: DATGANIAD

Dyddiad geni.....(Rhowch y dyddiad)

Mae'n ofynnol i chwi roi eich dyddiad geni oherwydd ar sail eich oed adeg cyflwyno eich Hysbysiad Hawl i Brynu y seilir y lluosrif ar gyfer pennu'r morgais y mae gennych hawl arno.

Yr wyf yn datgan drwy hyn hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred fod y manylion a roddwyd yn yr Hysbysiad hwn yn gywir.

Llofnod .....

Enw llawn .....

Dyddiad .....

Fe all y bydd person a wna osodiad ffug gan wybod hynny yn agored i erlyniad.

CYFLWYNO'R HYSBYSIAD

Rhowch enw'r sawl a rydd fenthyciad i chwi ac y byddwch yn cyflwyno'r Hysbysiad hwn iddo:

.....

(i) Gellir anfon yr Hysbysiad hwn drwy'r post.

(ii) Os awdurdod lleol a fydd yn rhoi'r benthyciad dylai'r Hysbysiad hwn gael ei adael neu ei anfon drwy'r post i brif swyddfa'r awdurdod neu i unrhyw un arall o swyddfeydd yr awdurdod a bennir ganddo fel swyddfa lle y bydd yn derbyn yr Hysbysiad hwn.

(iii) Os y Gorfforaeth Tai a fydd yn rhoi's benthyciad dylai'r Hysbysiad hwn gael ei adael neu ei anfon drwy'r post i:—

Y Gorfforaeth Tai
149 Tottenham Court Road
LLUNDAIN
W1P 0BN

(iv) Os Comisiwn y Trefi Newydd, Corfforaeth Datblygu Tref Newydd neu Bwrdd Datblygu Cymru Wledig a fydd yn rhoi'r benthyciad, dylai'r Hysbysiad hwn gael ei anfon drwy'r post i'w prif swyddfa.

Mae'n ofynnol yn unol ag Adran 12(4) Deddf Tai 1980 i'r sawl a rydd y benthyciad gyflwyno, mor fuan â phosibl ar ôl i'r Hysbysiad hwn gael ei gyflwyno, hysbysiad a fydd yn cynnwys swm y morgais y mae gennych hawl arno, sut y cafodd y swm hwnnw ei fwrw ynghyd â'r amodau y dylid yn ei farn ef eu cynnwys yng ngweithred y morgais.

Nicholas Edwards,
Secretary of State for Wales.

26th November 1980.

EXPLANATORY NOTE

(*This Note is not part of the Regulations.*)

These Regulations prescribe a version in Welsh of the form of notice for use by a secure tenant claiming to exercise his right to a mortgage under the Right to Buy provisions of Chapter I of Part I of the Housing Act 1980. The form may be used only in relation to a house or flat situated in Wales.

SI 1980/1930
ISBN 0-11-007930-2

